**Edexcel GCE**

# Technoleg Cerddoriaeth

**Uwch Gyfrannol**
**Uned 1: Portffolio Technoleg Cerddoriaeth 1**

Dyddiad rhyddhau: Dydd Gwener 11 Medi 2009
**Amser: 60 awr**

Cyfeirnod y Papur
**6MT01/01**

**Rhaid bod gennych:**
Copi o'r recordiad gwreiddiol ar gyfer Tasg 1A

## Cyfarwyddiadau i Athrawon

- Rhaid cyflwyno Tasg 1A fel Trac 1, Tasg 1B fel Trac 2, a Thasg 1C fel Trac 3.
- Rhaid i ganolfannau gadw copïau wrth gefn o holl recordiadau ymgeiswyr a ffeiliau meddalwedd patent ar gyfer Tasg 1A.
- Rhaid i'r portffolio cyflawn, yn cynnwys Tasgau 1A, 1B ac 1C, gael ei gyflwyno i'w asesu ar ffurf recordiadau stereo ar UN CD SAIN, ynghyd â'r llyfr log a'r ddogfen ddatganiad gydag Adran A (Llyfr log) ac Adran B (Ffurflen ddatganiad), wedi'u cwblhau.
- Caiff canolfannau eu hatgoffa y dylai cyflwyniad pob ymgeisydd gael ei gyflwyno ar CD ar wahân (NID ar MiniDisc™ na chasét) a rhaid nodi rhif cyfeirnod y papur (6MT01), rhif y ganolfan, enw'r ymgeisydd a rhif yr ymgeisydd yn glir arno.
- Dylid gwirio CDau cyn eu hanfon, a'u pecynnu fel na wneir difrod iddynt wrth eu hanfon.
- **Rhaid anfon y CD a'r Llyfr log gyda'r Ffurflen ddatganiad wedi'i llofnodi at yr arholwr i gyrraedd erbyn 15 Mai 2010.**

## Cyfarwyddiadau i Ymgeiswyr

- Cwblhewch bob un o'r **TAIR** tasg.

## Gwybodaeth i Ymgeiswyr

- **140** yw cyfanswm y marciau ar gyfer Uned 1.
- Tasg 1A: Perfformiad Sylweddedig wedi'i Ddilyniannu (40 marc)
- Tasg 1B: Recordiad Aml-drac (40 marc)
- Tasg 1C: Trefniant wedi'i Ddilyniannu'n Greadigol (40 marc)
- Y llyfr log ar gyfer y tair tasg hyn (20 marc)

*Trowch y dudalen* ▶

W38199A
©2009 Edexcel Limited.
1/
W 3 8 1 9 9 A

edexcel
advancing learning, changing lives

**Amodau Rheoledig**

**Mae gan Uned 1 dair tasg yn y Portffolio Technoleg Cerddoriaeth: 1A – Perfformiad Sylweddedig (*Realised*) wedi'i Ddilyniannu, 1B – Recordiad Aml-drac ac 1C – Trefniant wedi'i Ddilyniannu'n Greadigol. Hefyd, mae llyfr log y mae'n rhaid ei gyflwyno ar y cyd â'r portffolio.**

Nid yw'r gofyniad am 'Amodau Rheoledig' yn golygu bod rhaid i'r cyflwyniad gael ei wneud, o'r dechrau i'r diwedd, o dan oruchwyliaeth gaeth yn adran technoleg cerddoriaeth yr ysgol neu'r coleg. Gall gael ei rannu'n fras yn ddwy broses, '**ymchwil a pharatoi**' ac '**ysgrifennu**', gyda dim ond yr amser sy'n cael ei dreulio ar ran ysgrifennu'r broses yn cyfrif tuag at yr uchafswm o 60 awr a nodir yn y fanyleb.

**Ymchwil a pharatoi**

Yn fras, dyma unrhyw waith sy'n cael ei wneud cyn cwblhau'r arteffact terfynol sydd i'w anfon at yr arholwr.

*Gall* yr ymchwil a'r paratoi *gael ei wneud y tu allan i'r ganolfan*. Nid oes cyfyngiad amser arno. Gall y canlyniadau gael eu cofnodi'n ysgrifenedig neu'n electronig, a gellir mynd â'r rhain i mewn ac allan o'r ganolfan a gellir cyfeirio atynt yn ystod yr amser ysgrifennu rheoledig. Fodd bynnag, *rhaid* i'r athro/athrawes eu harchwilio, a bod yn fodlon mai gwaith y myfyriwr ei hun ydynt.

**Tasg 1A: Perfformiad Sylweddedig wedi'i Ddilyniannu**

Bydd ymchwil a pharatoi yn cynnwys amser sydd wedi'i dreulio yn gweithio allan y rhannau o'r trac sain gwreiddiol, dysgu sut i ddefnyddio'r pecyn dilyniannu, arbrofi ag ansoddau (*timbres*), ymchwilio i'r trac sain gwreiddiol ac ymarfer y rhannau sydd i'w chwarae i'r dilyniannwr.

**Tasg 1B: Recordiad Aml-drac**

Bydd ymchwil a pharatoi yn cynnwys amser sydd wedi'i dreulio yn ymchwilio i'r trac a fydd yn cael ei recordio, gwrando ar y gwreiddiol a phenderfynu pa effeithiau a phrosesu a ddefnyddiwyd, paratoi ac ymarfer yr ensemble a fydd yn cael ei recordio, gwirio a phrofi offer, dysgu techneg a lleoli microffonau, profi lefelau a chael popeth wedi'i osod a'i baratoi ar gyfer y broses recordio go iawn.

**Tasg 1C: Trefniant wedi'i Ddilyniannu'n Greadigol**

Bydd ymchwil a pharatoi yn cynnwys amser sydd wedi'i dreulio yn gwrando ar y trac ysgogi gwreiddiol, gwrando ar gerddoriaeth yn yr arddulliau sydd wedi cael eu pennu, arbrofi â syniadau alawol neu harmonig addas, arbrofi â datblygiadau i'r ysgogiad gwreiddiol a gweithio allan ddrafftiau bras o'r trefniant.

**Ysgrifennu**

Yn fras, dyma unrhyw waith sy'n gysylltiedig â chwblhau'r arteffact terfynol sydd i'w anfon at yr arholwr.

Mae gan fyfyrwyr uchafswm o 60 awr o amser ysgrifennu. Rhaid i athrawon gadw cofnod ysgrifenedig i wneud yn siŵr *nad aethpwyd dros* amser ysgrifennu pob myfyriwr. Gall y 60 awr gael eu rhannu ar draws y 3 tasg fel y bo'n briodol – dylai'r 20 awr y dasg a nodir yn y fanyleb gael ei ddefnyddio fel canllaw, ond nid yw'n orfodol – ond ni ddylid mynd dros y **cyfanswm** o 60 awr ar gyfer y portffolio cyfan.
Bydd amser ysgrifennu'n digwydd yn y ganolfan, naill ai mewn amser gwersi yn yr amserlen neu y tu allan iddynt, beth bynnag sy'n fwyaf cyfleus i bawb. Mae'n rhaid iddo fod o dan oruchwyliaeth.

**Tasg 1A: Perfformiad Sylweddedig wedi'i Ddilyniannu**

Mae unrhyw fewnbwn nodau i'r pecyn dilyniannu neu olygu unrhyw ddata yn dilyn hynny, gan gynnwys golygu ansoddau, traw, rhythm, gwybodaeth reoli ac ati, a fydd yn ffurfio rhan o'r recordiad terfynol a anfonir at yr arholwr, yn cael ei ystyried yn rhan o 'ysgrifennu' y dasg. Mae'r sboncio (cymysgu i lawr) terfynol i ffeil sain stereo hefyd yn cael ei ystyried yn amser 'ysgrifennu', er nad yw paratoi a llosgi'r CD ar gyfer cyflwyno.

**Tasg 1B: Recordiad Aml-drac**

Daw unrhyw beth a fydd yn ffurfio rhan o'r trac sain gorffenedig sydd i'w anfon at yr arholwr o fewn yr amser 'ysgrifennu'. Bydd hyn yn cynnwys recordio'r cerddorion, unrhyw olygu yn dilyn hynny gan gynnwys trimio traciau, gosod lefelau, ychwanegu effeithiau a phrosesu, cymysgu a chreu meistr. Mae'r sboncio (cymysgu i lawr) terfynol i ffeil sain stereo hefyd yn cael ei ystyried yn amser 'ysgrifennu', er nad yw paratoi a llosgi'r CD ar gyfer cyflwyno.

**Tasg 1C: Trefniant wedi'i Ddilyniannu'n Greadigol**

Daw unrhyw beth sy'n cael ei fewnbynnu i'r trac wedi'i ddilyniannu terfynol sydd i'w anfon at yr arholwr o fewn yr amser 'ysgrifennu'. Bydd hyn yn cynnwys amser sy'n cael ei dreulio'n mewnbynnu'r holl syniadau a gafodd yr ymgeisydd yn ystod yr amser paratoi ac unrhyw addasiadau, golygu ac ychwanegiadau a wneir wedi hynny i'r trefniant wedi'i ddilyniannu terfynol. Mae'r sboncio (cymysgu i lawr) terfynol i ffeil sain stereo hefyd yn cael ei ystyried yn amser 'ysgrifennu', er nad yw paratoi a llosgi'r CD ar gyfer cyflwyno.

**Llyfr log**

Nid yw cwblhau'r llyfr log yn cyfrannu at y cyfyngiad 60 awr, ond mae'n rhaid ei gwblhau o dan oruchwyliaeth gyfyngedig.

**Ffurflen Ddatganiad**

Rhaid i ymgeiswyr lofnodi'r ffurflen ddatganiad ar dudalen 16 y Llyfr log gan ddatgan mai eu gwaith eu hunain yw'r gwaith. Ni fydd athrawon yn cydlofnodi'r datganiad os nad yw'r gwaith yn ymddangos yn waith gwreiddiol.

**Tasg 1A: Perfformiad Sylweddedig wedi'i Ddilyniannu**

**Shopping (Pet Shop Boys)**

Gan ddefnyddio'r recordiad Pet Shop Boys gwreiddiol yn ysgogiad i chi (o 'Actually', rhif cyhoeddi CDP7469722), gwnewch sylweddiad (*realisation*) wedi'i ddilyniannu o'r gân hon.

Mae gofyn i chi ail-greu sylweddiad dilys cyflawn o'r gân wreiddiol, gan gynnwys yr holl linellau llais, rhannau offerynnol a nodweddion cynhyrchu sydd i'w clywed ar y recordiad gwreiddiol.

Dylech geisio cydweddu ansoddau (*timbres*) a manylion perfformiad mor agos ag sy'n bosibl â'r recordiad gwreiddiol, ond rhaid i chi ddefnyddio ansoddau offerynnol priodol yn lle'r lleisiau. Gall darnau Vocoder gael eu sylweddoli gan ddefnyddio vocoder, a all gael ei sbarduno gan sain.

Cewch ddefnyddio samplu i ddyblygu technegau cynhyrchu lle bo'n briodol, er **na allwch** samplu'r recordiad gwreiddiol.

Nid yw'n briodol defnyddio unrhyw ddolenni sain neu MIDI a raglennwyd ymlaen llaw yn y dasg hon.

Mae sgôr frâs wedi cael ei chynnwys i'ch cynorthwyo. Fodd bynnag, fe'ch atgoffir mai tasg glywedol yw hon yn bennaf.

**Cyflwynwch eich perfformiad gorffenedig fel Trac 1 ar eich CD Portffolio Technoleg Cerddoriaeth 1.**

**(Cyfanswm ar gyfer Tasg 1A = 40 marc)**

# SHOPPING

Geiriau a Cherddoriaeth gan Neil Tennant a Chris Lowe




17
Llais
How we go a - bout it is no my - ste - ry.
We
Dr.
21
Llais
check it with the ci - ty then change the law
S 3.
25
Llais
Are you look - ing for - ward now you want some more?
S 3.
Pad
Bas
28
Llais
We're
Voco.
We're
Pad
Bas
Dr.
CB.


30
Llais
S. H. O. P. P. I. N. G.___ We're shop- ping. It's
Voco.
S. H. O. P. P. I. N. G.___ We're shop- ping.
34
Llais
ea - sy when you've got all the in - for - ma - tion.
S 4.
38
(Echo...)
Llais
In - side help, no in - ves - ti - ga- tion. no
42
Llais
ques- tions in the house, no give and take._
46
Llais
There's a big bang in the ci- ty, we're all on__ the make.___ We're
FX
51
Llais
S. H. O. P. P. I. N. G.___ We're shop- ping. We're
Lleisiau Cefndir
We're


55
Llais
S. H. O. P. P. I. N. G.___ We're shop- ping.
Lleisiau Cefndir
S. H. O. P. P. I. N. G.___ We're shop- ping.
FX
59
Llais
Our_gain is your loss, that's the price you pay.___
Pad
Bas
Dr.
Tamb.
CB.
Bon.
63
Llais
I heard it in the house___ of com- mons. E-v'ry thing's for sale.___
Tim.
67
Llais
We're shop- ping.
Gitâr



71
Llais
We're shop- ping.
Gitâr
75
S 1.
S 5.
79
S 1.
S 5.
83
S 1.
S 5.
Bas


87
Llais
We're S. H. O. P. P. I. N. G. We're
[DS trawiau amhenodol]
Sampl llais
S 6.
S. Pres
Dr.
FX
gliss.
91
Llais
shop- ping. We're S. H. O. P. P. I. N. G. We're
S. Pres
95
Llais
shop- ping. Ah ah ah ah ah ah
99
Llais
ah ah ah ah ah We're S. H. O. P. P. I. N. G. We're
103
Llais
shop- ping. We're S. H. O. P. P. I. N. G. We're








*Trowch y dudalen* ▶

**Tasg 1B: Recordiad Aml-drac**

Gwnewch recordiad o ddarn o gerddoriaeth o'ch dewis chi mewn arddull sy'n gysylltiedig â Maes Astudio 2: Arddulliau Cerddoriaeth Poblogaidd ers 1910

Mae'n rhaid i chi recordio darn o gerddoriaeth sydd wedi'i ryddhau'n gyffredinol, neu ddarn safonol cydnabyddedig o roc, pop neu jazz. **Ni** all hwn fod yn gyfansoddiad gwreiddiol gan y myfyriwr.

Gall deunydd ysgogi gael ei drefnu'n addas at yr adnoddau sydd ar gael ond ni fydd y trefniant yn cael ei asesu.

Dylai eich recordiad:

- fod yn recordiad hyd llawn o'r gân, gydag offeryniaeth gyflawn
- para rhwng 2 a 4 munud
- defnyddio o leiaf wyth trac
- bod ag o leiaf **bedwar** trac sy'n cael eu dal gan ddefnyddio microffonau
- gwneud defnydd o dechnegau tros-seinio (*overdub*)
- defnyddio cerddorion byw yn unig, ac ni ddylai gynnwys unrhyw berfformiad wedi'i ddilyniannu gan midi
- bod yn gynhyrchiad stereo'n rhydd rhag sŵn gan ddefnyddio effeithiau priodol, EQ a phrosesu dynameg.

**Dylech gyflwyno'ch recordiad gorffenedig fel Trac 2 ar eich CD Portffolio Technoleg Cerddoriaeth 1.**

**(Cyfanswm ar gyfer Tasg 1B = 40 marc)**

**Tasg 1C: Trefniant wedi'i Ddilyniannu'n Greadigol**

Mae gofyn i chi greu trefniant gwreiddiol sy'n para rhwng 2 a 3 munud ar sail **un** o'r ysgogiadau canlynol ac yn **un** o'r arddulliau canlynol:

**Ysgogiadau**

- Mr Tambourine Man (Bob Dylan)
- Lay All Your Love On Me (ABBA/Andersson ac Ulvaeus)

Mae taflen arweiniol ar gyfer pob ysgogiad wedi cael ei chynnwys i'ch cynorthwyo. Gall rhai recordiadau fod mewn cywair gwahanol i gywair y daflen arweiniol.

**Arddull**

- Ambient (e.e. yn arddull Aphex Twin, Brian Eno, The Orb)
- Latino Pop (e.e. yn arddull Gloria Estefan, Ricky Martin, Enrique Iglesias)

Dylai'r dasg hon gael ei dilyniannu.

Fe'ch atgoffir os ydych yn defnyddio unrhyw ddolenni a samplau a recordiwyd ymlaen llaw bod yn rhaid iddynt gael eu haddasu (*manipulated*)/llunio/golygu/prosesu er mwyn cael marciau. Rhaid i bob sampl a dolen fod yn rhydd rhag breindaliadau ac ni ddylent gael eu cymryd o unrhyw recordiadau masnachol. Ni chaniateir perfformiadau byw sydd wedi'u recordio fel traciau sain parhaus neu sydd wedi cael eu golygu i ffurfio traciau sain parhaus yn y dasg hon. Fodd bynnag, gall deunydd wedi'i recordio'n fyw gael ei olygu a'i brosesu a'i gyflwyno ar ffurf samplau bach.

**Dylech gyflwyno'ch trefniant gorffenedig fel Trac 3 ar eich CD Portffolio Technoleg Cerddoriaeth 1.**

**(Cyfanswm ar gyfer Tasg 1C = 40 marc)**

---

**CYFANSWM AR GYFER Y PAPUR = 120 MARC**

# MR TAMBOURINE MAN

Geiriau a Cherddoriaeth gan Bob Dylan




21
D G D G
re-turned in - to sand,___ va nished from_ my hand, left me blind
25
D G A
- ly here to stand but still___ not sleep- in'. My
29
G A D G
wea - ri - ness a - ma -zes me,___ I'm brand - ed on___ my feet. I
33
D G D
have no - one___ to meet___ and the an - cient, emp - ty
36
G A
street's too dead for dream - in'.___

# LAY ALL YOUR LOVE ON ME

Geiriau a Cherddoriaeth gan Benny Andersson a Bjorn Ulvaeus






W38199A


A7–9/E Dm/F G
18
o - ver - turned, I beg of you:
Dm A Dm A/D Dm A7/D
21
Don't go wast - ing your e -
B♭ A Dm C F
24
mo - - tion, lay all your
B♭6 C F
27
love on me.
Dm
29

TUDALEN WAG

**TUDALEN WAG**

**TUDALEN WAG**